

# Llywodraeth Leol yn Symud Ymlaen



**Mae UNSAIN Cymru o blaid sector cyhoeddus bywiog ac amrywiol sy'n darparu gwasanaethau er budd pobl Cymru. Mae'n ystyried mai diben Llywodraeth Leol yw creu modd i wasanaethau lleol ddarparu cymorth yn y gymuned a dylanwadu ar gymunedau Cymru. Mae gan Lywodraeth Leol ran i'w chwarae wrth ddarparu llais democrataidd ar gyfer y gymuned. Yna mae'n cyfrannu at ei waith i ddiwallu anghenion iechyd a lles cyffredinol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu sydd, yn aml, yn amrywiol ac yn gymhleth. Mae'n darparu lefel o atebolrwydd lleol sydd ei hangen i sicrhau bod modd i bob dinesydd yng Nghymru arfer yr hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â bod yn ddinesydd a dal y rheini sy'n cael eu hethol i wasanaeth cyhoeddus ar lefel leol i gyfrif dros y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.**

Mae Llywodraeth Leol yn strwythur democrataidd a gweithredol cymhleth sydd â nifer o fanteision fel dod o hyd i atebion i heriau lleol ac annog arweinyddiaeth leol. Fel cyflogwr lleol mawr, mae'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hanfodol, yn arbennig i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau fel pobl ifanc a hŷn sy'n cynnwys yr holl swyddogaethau statudol dan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae Llywodraeth Leol yn darparu gwasanaethau rheng flaen fel gwastraff ac ailgylchu, cynllunio ac iechyd yr amgylchedd, gwasanaethau ieuencid, addysg, adfywio, gwasanaethau cymunedol ac ati.

Dylai Llywodraeth Leol fod ar flaen y gad o ran darparu cyfleoedd hyfw y bobl ifanc a dylai sbarduno swyddi a thwf busnes wrth ddarparu cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn y gymuned. Bydd hyn yn cynnwys diwallu dyheadau Llywodraeth Cymru o ran lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a mynd i'r afael â thlodi.

Yn y cyd-destun hwn a'r weledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol y mae UNSAIN Cymru yn ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ynghylch Llywodraeth Leol yng Nghymru. Ni ddylid colli diben cyffredinol Llywodraeth Leol yn y ddadl na phenderfyniadau ynghylch diwygio ac ad-drefnu gan fod hyn yn hanfodol er mwyn gosod sylfaen gadarn i sector Llywodraeth Leol cynaliadwy a bywiog a all addasu i newid mewn unrhyw amgylchedd gwleidyddol neu gymdeithasol.

Mae UNSAIN Cymru wedi argymhell ers tro nad yw nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gynaliadwy ac nad yw'n darparu'r sefydlogrwydd a'r cynaliadwyedd y mae pobl Cymru yn eu disgwyl na'r hyn sydd eu hangen arnynt i barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

Dylai unrhyw broses ddiwygio gael ei harwain gan yr angen i ddiwygio llywodraeth leol ac ni ddylid ei defnyddio fel modd o orfodi cyni cyllidol y Ceidwadwyr ar ddinasyddion Cymru. Gan gydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth â mudiad yr undebau llafur yng Nghymru, ni ddylid defnyddio diwygiadau fel mecanwaith i wanhau gallu'r undebau i gynrychioli eu haelodau. O ganlyniad, ni ddylai'r amser a'r adnoddau a ddarperir i'r undebau i ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn ddiodef o ganlyniad i unrhyw gynigion diwygio a/neu newidiadau yn y strwythurau.

Mae UNSAIN Cymru o'r farn y bydd eithrio unrhyw drafod ynghylch diwygio cyllid Llywodraeth Leol o'r broses ymgynghori yn naif. Mae'r angen am gyllid digonol a phriodol gan Lywodraeth Cymru er mwyn i Awdurdodau Lleol ddarparu gwasanaethau lleol yn sylfaen i gynaliadwyedd parhaus y sector Llywodraeth Leol.

# Llywodraeth Leol yn Symud Ymlaen

Mae UNSAIN Cymru yn cydnabod bod tirwedd wleidyddol a chymdeithasol Cymru wedi esblygu ers i Gomisiwn Williams gyhoeddi ei ganfyddiadau yn 2014. Fodd bynnag, safbwynt UNSAIN Cymru o hyd yw nad rhywbeth dymunol yn unig yw diwygio ac ad-drefnu Llywodraeth Leol ond hanfodol, er mwyn darparu gwasanaeth cyhoeddus cydlynol a chynaliadwy wedi'i gyllido'n llwyr mewn cymunedau lleol.

Felly mae UNSAIN Cymru o blaid diwygio Awdurdodau Lleol, gan gynnwys uno o fewn ffiniau presennol y Byrddau Iechyd. Mae'r gefnogaeth hon dros ddiwygio ac ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru mewn unrhyw fodd ar yr amod bod unrhyw gynigion yn cael eu hariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru ac y ceir ymrwymiad ganddi i atal unrhyw ddiswyddo gorfodol o ganlyniad i ddiwygio. Hefyd, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth i helpu'r newid mewn Llywodraeth Leol, gan gynnwys cyllid ar gyfer cynllun diswyddo gwirfoddol Cymru gyfan. Byddai UNSAIN Cymru yn disgwyl i'r rheiny sy'n rhan o'r broses uno gynnal archwiliad cynhwysfawr o'r rolau sydd eu hangen mewn unrhyw strwythurau newydd a fyddai'n darparu'r fframwaith ar gyfer unrhyw gynllun diswyddo cenedlaethol.

Ystyrir y byddai cynladwyedd parhaus y sector Llywodraeth Leol yn elwa o fabwysiadu cynllun gwerthuso swyddi a graddfeydd cyflog Cymru-gyfan ar gyfer y sector Llywodraeth Leol. Byddai'n lleihau'r gystadleuaeth ddiangen ac yn sicrhau lefel angenrheidiol o dryloywder cyflog ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno cynllun gwerthuso swyddi a graddfa gyflog Cymru-gyfan fel amod i'r diwygio. Mae angen ymchwilio ymhellach i benderfynu a allai'r Prif Swyddogion fod yn rhan o'r broses hon o ran y cynigion ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol ac a fyddai sefydlu CGC i Gymru yn sicrhau bod Llywodraeth Leol yng Nghymru yn fwy effeithiol.

Mae UNSAIN Cymru o'r farn y dylai unrhyw Awdurdod Lleol newydd yng Nghymru ymrwymo i ymuno â Siarteri Prentisiaethau, Gofal Moesegol a Phreswyl UNSAIN a Respect your Youth! Siarter i Weithwyr Ifanc yng Nghymru. Mae'r holl Siarteri hyn yn ceisio sicrhau cyflogaeth deg i weithwyr yng

Nghymru a bod rhai o'r gweithwyr mwyaf bregus yn cael gwarchodaeth werthfawr i'w cyflogaeth. Dylid ymrwymo i adolygu arferion cyflogi staff cymorth mewn ysgolion ar gytundebau yn ystod y tymor yn unig ynghyd â strwythur cenedlaethol ar gyfer staff cymorth mewn ysgolion yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, dylai unrhyw Awdurdod Lleol newydd yng Nghymru ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw yn awtomatig gan gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfiawnder cymdeithasol a rhoi terfyn ar dlodi yng Nghymru.

Mae UNSAIN Cymru yn gryf o'r farn y dylai gwasanaethau cyhoeddus gael eu darparu gan y sector cyhoeddus ac o ganlyniad mae'n gwrthwynebu rhoi cytundebau i sefydliadau allanol. Cred UNSAIN Cymru y dylai'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi fod yn rhwymol ar Awdurdodau Lleol ac y dylai peidio â chydymffurfio â'r cod hwn, ac â deddfwriaeth gaffael gysylltiedig, arwain at gosb ariannol briodol er mwyn atal diffyg cydymffurfio.

Rhaid i unrhyw gynigion diwygio hefyd gael eu hariannu gan fframwaith sy'n sicrhau bod lefel briodol o gyllid wrth symud ymlaen ar gyfer Llywodraeth Leol i sicrhau cynladwyedd parhaus y sector.



# Llywodraeth Leol yn Symud Ymlaen

Mae UNSAIN Cymru yn cydnabod bod angen pwerau ychwanegol ar Lywodraeth Leol i'w galluogi i ymateb i heriau'r 21ain Ganrif a'r tu hwnt iddi. Am y rheswm hwn, mae UNSAIN Cymru o blaid cyflwyno'r grym cyffredinol cymhwysedd ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan yn y diwygio. Yn ogystal â hynny, dylai Awdurdodau Lleol allu rhoi a chael benthyg arian ar sail broffesiynol gyda chynnig cyfraddau llog ffafriol gan Lywodraeth Cymru. Gellid defnyddio dull o'r fath i helpu i ddatblygu Mentrau Bach a Chanolig mewn Cymunedau Lleol. Cred UNSAIN Cymru fod diwygio Llywodraeth Leol yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddeddfu o blaid cysyniad un sector cyhoeddus a darparu fframwaith i alluogi symudedd gweithlu Llywodraeth Leol i gefnogi hyn.

Ni fyddai UNSAIN Cymru yn dymuno gweld unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno o ran cyfraddau annomestig yng Nghymru a byddai'n gwrthwynebu unrhyw gamau i atal ail-ddosbarthu refeniw o'r cyfraddau hyn ledled Cymru.

Deallir bod camau wedi eu cymryd yn ddiweddar i roi mwy o sefydlogrwydd i Awdurdodau Lleol trwy ddarparu setliad cyllid am ddwy flynedd. Byddai UNSAIN Cymru yn cefnogi system gyllido sy'n darparu sicrwydd a sefydlogrwydd am gyfnod rhwng tair a phum mlynedd, a fyddai'n caniatáu cynllunio ariannol effeithiol ac effeithlon yn yr hirdymor a'r byrdymor. Cred UNSAIN Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai'n bosibl cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd yn y gofynion o ran neilltuo cyllidebau ar gyfer Awdurdodau Lleol, gan ganiatáu neilltuo cyllidebau diffyg ariannol ar gyfer prosiectau penodol a fyddai'n dwyn budd hirdymor i Awdurdodau Lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae mesurau monitro ariannol priodol ar waith, fel y gofyniad i ddychwelyd at gyllideb fantoledig ar gyfer y rownd nesaf o etholiadau lleol, felly mae UNSAIN Cymru yn credu y byddai hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol i addasu'n fwy effeithiol i herio a chreu newid yn y sector.

Er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn ymgymryd ag unrhyw broses uno a/neu ddiwygio arfaethedig yn y sefyllfa ariannol orau bosibl, awgryma UNSAIN Cymru y dylai Llywodraeth

Cymru ystyried rhywfaint o gyfarwyddyd neu gyfeiriad dros dro ar wario cronfeydd wrth gefn. Ni hoffai UNSAIN Cymru weld y sefyllfa a fu ym 1996 lle ceisiodd rhai Awdurdodau Lleol ddisbyddu'r cronfeydd wrth gefn ac adnoddau cyn i unrhyw uno ddigwydd.

Yr hyn sy'n hanfodol i'r rhaglen ddiwygio wrth symud ymlaen yw bod Llywodraeth Cymru yn dangos yr arweinyddiaeth angenrheidiol i greu newid ac yn dangos i'r arweinyddiaeth wleidyddol mewn Llywodraeth Leol yr achos busnes o blaid y rhaglen ddiwygio.

Cred UNSAIN Cymru y dylai'r rheiny ar lefel arweinyddiaeth mewn Llywodraeth Leol, er enghraifft, Timau'r Uwch Reolwyr, y Prif Weithredwyr ac Arweinwyr y Cyngor arwain yr ymarferoldeb o ran diwygio Llywodraeth Leol, ynghyd â'r undebau llafur cydnabyddedig. Heb y gefnogaeth wleidyddol hon, bydd unrhyw gynigion i ddiwygio Llywodraeth Leol yn wynebu heriau a fydd yn oedi'r rhaglen ddiwygio ac yn amharu arni. Dylai'r gwaith hwn gael ei ffurfio gan gyfeiriad clir a gyfathrebir gan Lywodraeth Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am gyllido Llywodraeth Leol.

Mae gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd ar lefel leol wrth wraidd Llywodraeth Leol ac felly dylid cymryd camau i sicrhau bod unrhyw broses ddiwygio yn cadw at yr egwyddor hon a bod sylfaen leol hefyd gan unrhyw gyngor a ddarperir ar y broses. Ni fyddai UNSAIN Cymru yn cefnogi'r defnydd o Ymgynghorwyr i reoli unrhyw broses newid gan ei fod o'r farn bod y sgiliau a'r profiad angenrheidiol sydd eu hangen i greu newid i'w gweld yn y gweithlu presennol.

# Llywodraeth Leol yn Symud Ymlaen



Fodd bynnag, os na fyddai'n bosibl annog arweinwyr gwleidyddol mewn Llywodraeth Leol i gymryd rhan yn y rhaglen ddiwygio, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw arwain a gweithredu'n bendant i sicrhau bod Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn effeithiol yn y dyfodol.

Cynrychiolaeth deg a chymesuredd yw'r egwyddorion allweddol sy'n sylfaen i gynrychiolaeth yn UNSAIN Cymru a chredwn yn gryf fod angen ymyriad ar ffurf deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod y strwythurau democrataidd mewn Awdurdodau Lleol yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am ystyried deddfu i sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig wardiau'n cydbwysu o ran rhywedd ac ystyried camau cadarnhaol i annog dinasyddion sydd â nodweddion gwarchoddedig i ymrwymo i'r gwasanaeth cyhoeddus.

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyflogau'r Cynghorwyr; mae'r system lwfans bresennol wedi sicrhau nad yw siambrau cynghorau ledled y wlad

yn cynrychioli eu cymunedau sy'n cynnwys traean o bobl ifanc. Dylid ymestyn nifer y dyddiau sydd eu hangen i fynychu cyfarfodydd cyngor ac i ymgymryd â dyletswyddau cyngor, gan ad-dalu cwmnïau/sefydliadau am helpu eu staff i gyflawni'r swyddogaeth gymunedol bwysig hon. Dylai Awdurdodau Lleol hefyd edrych ar argaeledd cyfleusterau gofal plant a meithrinfeydd i annog y rheiny sydd â chyfrifoldebau gofalu i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a chyfrannu ato.

Mae UNSAIN Cymru yn sylwi bod Senedd yr Alban yn gweithredu'r unig gyfleuster o'i fath yn Ewrop, gan oruchwylio plant pobl sy'n ymweld â Senedd yr Alban. Mae Senedd yr Alban yn darparu gofal plant i unigolion sy'n cymryd rhan mewn taith dywys, yn cyfarfod ag Aelod o Senedd yr Alban neu aelod o'r staff, yn cymryd rhan yng nghyfarfodydd busnes y Senedd, yn gwylio busnes y Senedd yn fyw yn y Siambr neu yn yr ystafelloedd pwyllgorau, yn mynychu digwyddiad, yn crwydro neu'n cael paned yn y Caffi. Mae ymagwedd o'r fath yn ceisio creu strwythur democrataidd agored a hygyrch. Mae UNSAIN Cymru yn teimlo y dylid ystyried dull o'r fath ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru.

Mae UNSAIN Cymru o'r fam bod angen ymgymryd â chorff gwaith er mwyn sicrhau bod strwythurau democrataidd mewn Llywodraeth Leol yn gynrychioliadol i wneud yn siŵr bod y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn deall diben, strwythur a phwerau Llywodraeth Leol i'r dim. Cred UNSAIN Cymru y dylai'r addysg hon ddechrau ar lefel ysgolion o fewn Dinasyddiaeth Weithgar ABCh. Cred UNSAIN Cymru fod gan undebau llafur, fel UNSAIN Cymru, rôl i'w chwarae wrth lunio'r cwricwlwm yn hyn o beth a hyrwyddo cytundeb cymdeithasol rhwng dinasyddion, cymunedau, llywodraethau lleol a chenedlaethol.

## Cyhoeddwyd gan UNSAIN Cymru/Wales

Ty UNSAIN, Stryd y Tollidy, Caerdydd CF10 1AP  
Gwefan: [cymru-wales.unison.org.uk](http://cymru-wales.unison.org.uk)  
Epost: [cymruwales@unison.co.uk](mailto:cymruwales@unison.co.uk)

